Julie James AC / AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-793
Ein cyf/Our ref JJ/05049/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

28 Tachwedd 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd yn amgáu y ddeiseb a gawsoch gan drigolion Pentref Llangenau ynghylch darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn i'r pentref erbyn diwedd Rhagfyr 2017.

Roedd y cytundeb gyda BT i ddarparu prosiect Cyflymu Cymru yn datgan bod yn rhaid iddynt ddarparu band eang cyflym iawn i 690,000 o leoliadau erbyn diwedd Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, ni wnaeth y cytundeb nodi bod unrhyw ardal benodol yn cael blaenoriaeth dros y llall na bod y gwaith o gysylltu ag ardal benodol yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod amser penodol. Yn yr un modd, nid yw'r cytundeb yn golygu bod yn rhaid talu BT tan i gysylltiad ag adeilad penodol gael ei brofi a'i ddilysu'n annibynnol.

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y rhesymau pam y mae BT yn cynnig y gwasanaeth i rai adeiladau, heb ei gynnig i eraill, a pham mae'r dyddiadau cyflenwi yn wahanol iawn i adeiladau gwahanol. Mae'r ffactorau hynny y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys amryw faterion technegol, daearyddol, a pheirianyddol sifil sydd yn eu tro yn effeithio ar gostau neu amserlen y gwaith cyflenwi. Golyga hyn wedyn fod adeiladau eraill yn cael eu dewis yn eu lle.

Oherwydd hynny, mae'n amhosibl sicrhau y bydd pob adeilad yn Llangenau yn derbyn cysylltiad band eang cyflym iawn erbyn 31 Rhagfyr 2017 o dan brosiect Cyflymu Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi £80 miliwn arall tuag at ehangu cwmpas band eang ledled Cymru erbyn 2020. Cynhaliwyd adolygiad o'r cysylltiadau band eang ym mhob cwr o Gymru i nodi pa adeiladau fydd yn parhau heb wasanaeth band eang cyflym iawn. Bydd y canlyniadau'n arwain at gontract(au) newydd er mwyn ehangu cwmpas band eang cyflym iawn o 2018 ymlaen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ochr yn ochr â hyn, mae cymorth ariannol ar gael i Mr Richards ac eraill gael cysylltiad band eang cyflym iawn trwy ddulliau amgen, diolch i Gynllun Allwedd Band Eang Cymru (ABC) a'r Cynllun Taleb Gwibgyswllt.

Mae Cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn cynnig grantiau i ariannu (neu ariannu'n rhannol) gostau gosod cysylltiadau band eang newydd i gartrefi a busnesau yng Nghymru (nid yw'n cynnwys costau rhentu misol). Mae'n rhaid i gysylltiadau newydd drwy'r cynllun hwn gynnig newid sylweddol mewn cyflymder − o leiaf ddwbl y cyflymder lawrlwytho presennol. Mae swm y cyllid a geir yn dibynnu ar gyflymder y cysylltiad newydd.

Os yw'ch etholwr yn dymuno manteisio ar gysylltiad cyflymach, mae'r Cynllun Taleb Gwibgyswllt hefyd ar gael sy'n darparu gwasanaeth gwibgyswllt (100+Mbps at y cwsmer, 30+Mbps oddi wrth y cwsmer). Mae'r cynllun yn rhoi grantiau o hyd at £10,000 i ariannu (neu ariannu'n rhannol) gostau gosod cysylltiadau band eang newydd i fusnesau yng Nghymru, ond nid yw'n cynnwys costau rhentu misol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y ddau gynllun drwy ffonio 0300 025 8887 neu drwy anfon e-bost at broadband@llyw.cymru.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa ar hyn o bryd ac yn ateb y materion a godwyd.

Yn gywir

Julie James AC / AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip